# Mathemateg Arian - Canrannau Perffaith

## 1. Gostyngiadau

**Pan fyddwch chi'n siopa, gallwch chi arbed arian drwy edrych am y gostyngiadau gorau.**
Mae'r siopau canlynol yn cynnig yr un eitemau am brisiau gwahanol. Ym mhob un o'r enghreifftiau, gweithiwch allan beth yw pris y cynnig i weld pa un yw'r fargen rataf.

a.
- Pris Gwreiddiol: £600 Cynnig: gostyngiad o 25% ..............................
- Pris Gwreiddiol: £550 Cynnig: gostyngiad o 10% ..............................
- Pris Gwreiddiol: £850 Cynnig: Hanner pris ..............................

b.
- Pris Gwreiddiol: £200 Cynnig: gostyngiad o 50% ..............................
- Pris Gwreiddiol: £150 Cynnig: gostyngiad o 20% ..............................
- Pris Gwreiddiol: £110 Cynnig: gostyngiad o 15% ..............................

c.
- Pris Gwreiddiol: £13.50 Cynnig: gostyngiad o 10% ..............................
- Pris Gwreiddiol: £15.20 Cynnig: gostyngiad o 20% ..............................
- Pris Gwreiddiol: £16.40 Cynnig: gostyngiad o ¼ ..............................

ch.
- Pris Gwreiddiol: £51.50 Cynnig: gostyngiad o 20% ..............................
- Pris Gwreiddiol: £64.30 Cynnig: gostyngiad o 30% ..............................
- Pris Gwreiddiol: £45.90 Cynnig: gostyngiad o 10% ..............................

## 2. Newid gwerthoedd

a. Mae Naomi yn prynu fflat am £65,000. Dros wyth mlynedd, mae prisiau eiddo yn codi 25%. Beth yw gwerth y fflat ar ddiwedd yr wyth mlynedd? ..............................

b. Mae Steven yn prynu tŷ am £180,000. Mae prisiau eiddo yn gostwng 20% dros y tair blynedd nesaf. Beth yw gwerth y tŷ erbyn hynny? ..............................

c. Mae Kaya yn prynu car ail law am £7,500. Mae ei werth yn gostwng 18% dros y flwyddyn nesaf. Beth yw gwerth y car erbyn hynny? ..............................

ch. Mae James yn prynu modrwy aur am £1,000 ond wedyn yn ei cholli hi. Mae ei ffrind am brynu'r un fodrwy flwyddyn yn ddiweddarach ond mae'r pris wedi codi 15%. Faint fydd y fodrwy newydd yn ei chostio? ..............................

d. Mae Risha yn prynu tŷ gwerth £274,750. Mewn tair blynedd, mae ei werth wedi codi 7%. Beth yw gwerth y tŷ erbyn hyn? Faint o elw fydd Risha yn ei gael os bydd hi'n gwerthu'r tŷ? ..............................



Darparwyd gan Nationwide – ar gael ar www.NationwideEducation.co.uk